



# Mentro / Venture



## Blwyddyn 2

### **Cwestiwn / Question**

Sut allwn ni fentro? How can we venture?

Wrth archwilio'r cysyniad 'Mentro' yn ystod y tymor hwn, byddwn yn ateb y cwestiwn, "Sut gallwn ni fentro i fyd natur?" Byddwn yn dechrau drwy ddatblygu ein hardal awyr agored, gan greu gardd lle gallwn dyfu llysiau a phlanhigion a dysgu sut i ofalu am bethau byw. Yna byddwn yn mentro i'n hamgylchedd lleol, gan ymweld â'r parc a'r goedwig i arsylwi bywyd gwylt a phlanhigion, a deall pam mae'r mannau hyn yn bwysig. Wrth barhau, byddwn yn archwilio cynefinoedd gwahanol fel pyllau a'r arfordir, gan ddysgu am yr anifeiliaid a'r planhigion sy'n byw yno. Drwy gydol y tymor, byddwn yn rhannu ein darganfyddiadau ac yn cyflwyno ein syniadau mewn ffyrdd creadigol, gan ein helpu i ddeall, parchu a gofalu am y byd naturiol.

### **Naratif / Narrative**

*This term, our concept is "To Venture" as we explore the question, "How can we venture into nature?" We will begin by developing our outdoor area, creating a garden where we can grow vegetables and plants while learning how to care for living things. We will then venture into our local environment, visiting the park and woodland to observe wildlife and plant life, and understand why these spaces are important. As we continue, we will explore different habitats such as ponds and the seaside, learning about the animals and plants that live there. Throughout the term, we will share our discoveries and present our ideas in creative ways, helping us to better understand, respect and care for the natural world.*



**Caredigrwydd. Cymreictod. Cymuned.**

